BookTrust Cymru
Ysgogi plant i ddarllen
Getting children reading

# BookTrust – Adroddiad Effaith Clwb y Blwch Llythyrau 2024

Blwch Llythyrau
y clwb blwch llythyrau

## Am y Clwb Blwch Llythyrau

Ers dros ugain mlynedd, mae Clwb Blwch Llythyrau BookTrust wedi bod yn dod â hudoliaeth darllen i blant sy'n profi bregustra ac anfantais.

Ledled y DU, caiff plant eu cofrestru yn y Clwb Blwch Llythyrau gan awdurdodau lleol, ysgolion, a lleoliadau eraill. Bydd pob plentyn yn derbyn eu parsel lliwgar eu hunain o lyfrau, gemau mathemateg, deunydd ysgrifennu a deunyddiau eraill o safon uchel unwaith y mis dros chwe mis. Mae fersiynau dwyieithog ar gael i deuluoedd sy'n siarad Cymraeg fel mamiaith, neu sydd eisiau datblygu'u Cymraeg. Cylch arferol dosbarthu'r parseli yw rhwng mis Mai a mis Hydref, ond rydyn ni'n hapus i drafod trefn gyflenwi wahanol.

Bu sawl gwerthusiad o'r Clwb Blwch Llythyrau i fesur deilliannau gwahanol, a dangoswyd bod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar arferion darllen plant. Mae sawl nodwedd a gynlluniwyd fel rhan o'r Clwb Blwch Llythyrau sy'n allweddol er mwyn denu plant i ddarllen.

Dysgwch ragor am sut mae'r Clwb Blwch Llythyrau yn annog arferion darllen, a manteision darllen, yn ein briffiad ymchwil:
**Rôl darllen i blant sy'n profi bregustra**



## Am yr adroddiad hwn

Yn yr adroddiad hwn, rydyn ni'n rhannu canfyddiadau allweddol o'r hyn a ddysgwyd yn rheolaidd gennym oddi wrth blant sy'n derbyn y Clwb Blwch Llythyrau. Mae hyn yn cynnwys canfyddiadau o'n harolygon i blant a chardiau post adborth.

Rhwng Hydref 2023 a Mai 2024, fe wnaeth 306 o blant rhwng 6 a 14 oed ymateb i'n harolwg i blant. Mae'r arolwg hwn yn cael ei anfon at bob plentyn sy'n derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau Glas, Coch a Gwyrdd drwy gyfrwng awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Fe dderbynion ni hefyd dros gant o gardiau post adborth oddi wrth blant ar draws ystod o oedrannau.

**Darllenwch ein hadroddiad effaith blaenorol yma Saesneg yn unig.**

**Cyfyngiadau**

Er i ni dderbyn ymatebion oddi wrth ystod o blant, allwn ni ddim â bod yn sicr fod y rhai a atebodd ein harolwg yn gynrychiadol o holl dderbynwyr y Clwb Blwch Llythyrau.

**Hoffem ddiolch i'r teuluoedd a'r plant a rannodd eu barn gyda ni, ac i bartneriaid oedd yn cyfranogi, am eu cefnogaeth barhaus i'n galluogi i glywed oddi wrthynt.**

# Canfyddiadau Allweddol

**Y llynedd, fe gyrhaeddon ni at dros 11,000 o blant ar draws 65% o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.**

**Dywed ein hymatebion i'n harolwg fod...**

**96%**
o blant yn hoffi neu'n dwlu ar y Clwb Blwch Llythyrau.

**89%**
o blant yn hoffi neu'n caru'r llyfrau yn eu parseli.

**72%**
o blant yn darllen mwy ar eu pennau'u hunain ar ôl derbyn parseli'r Clwb Blwch Llythyrau.


## Cefnogaeth i arferion darllen

Mae'r Clwb Blwch Llythyrau yn cael effaith gadarnhaol ar arferion darllen plant. Mae plant yn adrodd am fwynhau darllen yn fwy, a theimlo'n fwy hyderus yn ei gylch, ar ôl derbyn parseli'r Clwb Blwch Llythyrau. Fel y dangosir isod, dywed llawer eu bod nhw'n darllen mwy ar eu pen eu hunain (72%), neu gydag oedolyn (47%), oherwydd y Clwb Blwch Llythyrau.

"Dwi'n CARU darllen. Nawr. O'r blaen doeddwn i ddim yn hoffi llyfrau – ond nawr dwi'n dwlu arnyn nhw."
**Plentyn 9 oed yn derbyn parseli coch.**


**Yn gyffredinol mae 73% o blant yn darllen mwy, naill ai'n**

**Annibynnol** eu **Gydag oedolyn**




Dwi'n darllen llawer mwy | Dwi'n darllen rhywfaint yn fwy | Dwi'n darllen llai | Dwi'n darllen yr un faint

Sail: Pob ymatebydd (n=286)




Dwi'n darllen llawer mwy | Dwi'n darllen rhywfaint yn llai | Dwi'n darllen llai | Dwi'n darllen yr un faint

Sail: Pob ymatebydd sy'n derbyn parseli Coch neu Las (N=220)

# Canfyddiadau Allweddol

## Cefnogaeth i anghenion emosiynol

Adroddodd 75% o' blant eu bod nhw'n dwlu ar y Clwb Blwch Llythyrau. Mae'r rhaglen yn mynd y tu hwnt i gefnogi arferion darllen yn unig. Bob blwyddyn, cawn adborth oddi wrth blant sy'n dangos gwerth y Clwb Blwch Llythyrau o ran ateb eu hanghenion ehangach.

"Mae wedi fy helpu i ddeall bod mewn gofal maeth."
**Plentyn 9 oed sy'n derbyn parseli Glas.**

"Mae'r Clwb Blwch Llythyrau wedi fy helpu gyda fy iechyd meddwl."
**Plentyn 13 oed sy'n derbyn parseli Gwyrdd.**

Dengys corff eang o ymchwil fod darllen yn gallu cefnogi plant i ddatblygu gwell llesiant meddyliol, hunan-barch a hunanreolaeth emosiynol. Mae'r Clwb Blwch Llythyrau wedi'i gynllunio'n benodol i feithrin teimladau o reolaeth, gwerth, ac yn fwyaf pwysig, hapusrwydd.

**Dysgwch ragor am fanteision darllen**




## Dod â boddhad

Mae boddhad yn ysgogwr grymus. Yn ogystal â'r llyfrau, mae gan y Clwb Blwch Llythyrau nifer o nodweddion unigryw, a gynlluniwyd er mwyn gwella mwynhad plant o ddarllen a mathemateg.

- 97% yn hoffi neu'n dwlu ar y nwyddau papur
- 91% yn hoffi neu'n dwlu ar y gweithgareddau
- 83% yn hoffi neu'n dwlu ar y llythyron gan awduron
- 63% yn hoffi neu'n dwlu ar y gemau mathemateg

"Hoffwn ddweud diolch o galon i chi am y parseli rydych chi'n eu hanfon at Ben* – mae e wir yn edrych ymlaen at eu cael ac maen nhw wedi'i helpu'n fawr gyda'i waith ysgol. Diolch yn fawr iawn."
**Gofalwr y mae'u plentyn yn derbyn parseli Clwb Blwch Llythyrau.**

***Newidiwyd yr enw i warchod anhysbysrwydd**

# Beth nesaf?

## Dysgwch ragor

Ewch i [booktrust.org.uk/what-we-do/programmes-and-campaigns/letterbox-club/wales/](booktrust.org.uk/what-we-do/programmes-and-campaigns/letterbox-club/wales/) i:

- Ddysgu sut y gall gefnogi eich plant
- Cofrestru i dderbyn samplau'r Clwb Blwch Llythyrau
- Gwylio weminarau a recordiwyd
- Lawrlwytho eich canllaw strategaeth premiwm disgybl
- Edrych ar gefnogaeth ac adnoddau'r Clwb Blwch Llythyrau

teach PRIMARY AWARDS 2024
HIGHLY COMMENDED

## Am BookTrust

Fel elusen ddarllen plant fwyaf y DU, rydyn ni am i bob plentyn ddarllen yn rheolaidd a thrwy ddewis. Rydyn ni'n cyrraedd miliynau o blant a theuluoedd bob blwyddyn, yn enwedig y rheiny o deuluoedd incwm isel neu gefndiroedd bregus, gan eu hysbrydoli gyda llyfrau ac adnoddau i'w rhoi ar ben ffordd ar eu taith ddarllen.

Mae plant sy'n dewis darllen ac sy'n darllen yn rheolaidd yn hapusach ac yn iachach. Maen nhw'n ffurfio dolen a pherthynas gryfach ag eraill. Maen nhw'n gwneud yn well yn yr ysgol ac maen nhw'n fwy creadigol. Maen nhw'n mwynhau mwy o lwyddiant mewn bywyd.

Dyma pam rydyn ni'n gweithio gyda theuluoedd, gan eu cefnogi i ddechrau rhannu straeon a llyfrau gyda'i gilydd o'r oedran ifancaf posibl. Mae ein llyfrau a ddetholir yn ofalus, a'n rhaglenni a ymchwiliwyd yn drylwyr, yn cael eu cyflenwi gan filoedd o bartneriaid lleol, gan ddod â hud darllen i blant mewn cymunedau lleol ledled y DU.

**Os hoffech ddysgu mwy am y Clwb Blwch Llythyrau, cysylltwch â: [queries@booktrust.org.uk](mailto:queries@booktrust.org.uk)**

Gallwch hefyd ddysgu mwy am BookTrust a'n rhaglenni eraill yma

Cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyron

Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol: @BookTrustCymru

Ewch i'n gwefan: booktrust.org.uk/cymru

©2024 BookTrust. Rhif Elusen: 313343

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government